# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION | PLANNING AND ORDERS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 3 MEHEFIN, 2015 am 1.00 o'r gloch y prynhawn | WEDNESDAY, 3 JUNE, 2015 at 1:00 p.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:

Lewis Davies
Ann Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
John Griffith
K P Hughes
W T Hughes (Cadeirydd/Chair)
Vaughan Hughes
Victor Hughes
Richard Owain Jones
Raymond Jones
Jeffrey M.Evans
Nicola Roberts

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R h a g l e n

Atgoffir aelodau y bydd papurau cefndirol y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau i'r pwyllgor ar gael i'w harchwilio ar mewn fformat electronig ar ddiwrnod y cyfarfod o 12.30 p.m. ymlaen yn Siambr y Cyngor neu gellir eu harchwilio yn yr Adain Rheoli Datblygu yn ystod oriau agor arferol.  Hefyd gellir gweld dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau ar ffeiliau'r electronig y ceisiadau.

Adroddir ar lafar i'r Pwyllgor unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw i law yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

Efallai y gwneir man newidiadau i rybudd o benderfyniad mewn achosion o gamgymeriadau argraffu adroddiadau i'r Pwyllgor cyn rhyddhau rhybudd o benderfyniad i ganiatau neu i wrthod cais.

**Mynegai**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION CYFARFOD 13 MAI, 2015_**(Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 13 Mai, 2015
- 14 Mai, 2015 (ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd)

**4 YMWELIADAU SAFLE_**(Tudalennau 15 - 16)

Cyflwyno cofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2015.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

**6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**7 CEISIADAU'N CODI**

7.1 14LPA1010/CC – Cefn Trefor, Trefor

7.2 16C197A – Dridwen, Bryngwran

7.3 19C690C – 14 Cae Braenar, Caergybi

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

7.4 34C553A – Ty'n Coed, Llangefni

7.5 34LPA1009/CC – Saith Aelwyd, Rhosmeirch

7.6 36C338 – Ysgol Henblas, Llangristiolus

***(Adroddiad i ddilyn)***

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**10 CEISIADAU'N GWYRO**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

11.1 22C224 – Tan y Ffordd Isaf, Llandddona

11.2 45C83C/DEL – Trewen, Penlon, Niwbwrch

***(Adroddiad i ddilyn)***

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

12.1 19C1145 – Byngalo Harbour View, Ffordd Turkey Shore Road, Caergybi

12.2 20C289A/DEL – Arfordir ger yr Harbwr, Cemaes

12.3 25C28C – Tafarn y Bull, Llanerchymedd

12.4 36LPA827B/CC – Bodhenlli, Cerrigceinwen

***(Adroddiad i ddilyn)***

**13 MATERION ERAILL**

13.1 46C427K/TR/EIA/ECON – Parc Arfordirol Penrhos, Cae Glas a Kingsland, Caergybi

***(Adroddiad i ddilyn)***

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd William Thomas Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Raymond Jones, Jeffrey M.Evans a Nicola Roberts |
| **WRTH LAW:** | Rheolydd Datblygu Cynllunio,<br>Cynorthwywyr Cynllunio,<br>Uwch Beiriannydd (Priffyrdd),<br>Swyddog Priffyrdd (JAR),<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) (ar gyfer eitem 12.5 yn unig). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Victor Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr H.E. Jones (eitem 7.1); Dylan Rees (eitem 11.1). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Roedd yr ymddiheuriadau fel y nodir hwy uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:-

Gwnaeth y Cynghorydd Nicola Roberts ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas â chais 11.1 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais arno.

Gwnaeth y Rheolydd Datblygu Cynllunio ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas â cheisiadau 11.3 ac 11.5 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arnynt.

Gwnaeth y Swyddog Pwyllgor ddatganiad o ddiddordeb yng nghais 12.5 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.

Gwnaeth y Cynghorydd Bob Parry OBE ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas â chais 11.1. Nododd nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar newid i eiriad 7.2 a 12.2 i nodi fod y Cynghorydd Ann Griffith wedi bod yn siarad fel eiriolydd yn hytrach na chefnogydd i'r ddau gais.

**4 YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

Ni chafwyd unrhyw ymweliadau â safleoedd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Dywedodd y Cadeirydd bod siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1, 7.3, 11.4 a 12.7.

**6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

Nid oedd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**7 CEISIADAU'N CODI**

**7.1 33C304B/ECON – Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl ar gyfer dymchwel y fferm gyfredol, codi parc gwyddoniaeth, creu maes parcio a mynedfa newydd i gerbydau ar Gyffordd 7 yr A55 (ger Cefn Du), Gaerwen**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd ei fod ar dir ym mherchenogaeth y Cyngor.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Einion Parry Williams, Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog i annerch y pwyllgor fel gwrthwynebydd i'r cais. Dygodd Mr. Williams sylw at bryderon a fynegwyd gan drigolion lleol fel a ganlyn yn ystod cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ym mis Chwefror 2015:-

- Lleoliad – bydd yn dinistrio treftadaeth leol pentref Gaerwen;
- Carthffosiaeth – dim digon o gapasiti carthffosiaeth ar gael;
- Cludiant - byddai'n cael effaith andwyol ar draffig yn y Gaerwen.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor sawl cwestiwn i Mr. Williams er eglurhad mewn perthynas â lleoliad y safle a'r rhesymau pam mae'r trigolion lleol yn gwrthwynebu. Ymatebodd Mr Williams fod y cais yn golygu dymchwel adeiladau allanol hanesyddol y fferm a bod hynny'n annerbyniol. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch materion carthffosiaeth a draenio. Ymatebodd Mr Williams fod y safle'n llawn dop o ddŵr glaw yn ystod tywydd gwlyb a bod y priffyrdd cyfagos yn gorlifo fel arfer ar y fath adegau. Gofynnodd yr Aelodau ragor o gwestiynau mewn perthynas â materion traffig a godwyd gan y trigolion. Ymatebodd Mr Williams trwy ddweud fod traffig trwm yn parhau i fynd trwy bentref Gaerwen er gwaethaf adeiladu'r A55. Nododd bod y Stad Ddiwydiannol yn cynhyrchu traffig di-baid trwy'r pentref.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Pryderi ap Rhisiart annerch y cyfarfod i gefnogi'r cais. Roedd yn cynrychioli Prifysgol Bangor a nododd fod Ms Hayley Knight o Bilfinger GVA ar gael i ateb unrhyw gwestiynau technegol y byddai'r Pwyllgor yn

dymuno cael eglurhad yn eu cylch. Dygodd Mr Pryderi ap Rhisiart sylw at y materion a ganlyn:-

- Mae Parc Gwyddoniaeth yn wahanol i barciau busnes a stadau diwydiannol. Mae Parc Gwyddoniaeth yn canolbwyntio ar rannu cyfleusterau ac yn aml yn denu busnesau bychan a chanolig eu maint h.y. busnesau ymchwil;
- Bydd y Parc Gwyddoniaeth yn cynnig cyfleon cyflogaeth i bobl ifanc leol a swyddi o safon;
- Fel y rhan fwyaf o Barciau Gwyddoniaeth, byddai gan y cynnig hwn gysylltiadau cryf gyda Phrifysgol Bangor. Bydd y ffocws ar dechnoleg amgylcheddol a sefydliadau carbon isel sy'n adlewyrchu cryfderau'r Brifysgol ynghyd â'r cysylltiadau amlwg gyda Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor;
- Dewiswyd y safle oherwydd mai hwn yw'r lleoliad gorau oherwydd maint y tir oedd ar gael a'i agosrwydd i'r A55 a Phrifysgol Bangor. Roedd nifer o safleoedd eraill yn Ynys Môn a Gwynedd wedi cael sylw hefyd. Hwn fydd yr unig safle dynodedig yn Ynys Môn fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Mae nifer o faterion technegol wedi cael eu hasesu'n ofalus sy'n cynnwys priffyrdd, perygl o lifogydd, effaith weledol, ecoleg a'r effaith economaidd. Mae'r Cyngor a'r cyrff statudol wedi derbyn yr adroddiadau technegol;
- Er mai cynnig amlinellol yw hwn ar hyn o bryd, ymgynghorwyd dros y 10 mis diwethaf gyda'r Cyngor Cymuned Lleol ynghyd â thrigolion lleol;
- Mae llwybr troed wedi ei ail-leoli ac mae'r safle wedi ei ostwng yn dilyn sylwadau a wnaed;

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor sawl cwestiwn i gynrychiolwyr y Parc Gwyddoniaeth. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â phryderon trigolion Gaerwen ynghylch diogelu treftadaeth yr adeiladau fferm ger y safle; materion traffig a'r isadeiledd carthffosiaeth.

Ymatebodd y cynrychiolwyr trwy ddweud y rhagwelir y bydd y tŷ fferm yn cael ei gadw ac y bydd yr arteffactau ffermio diddorol yn cael eu harddangos yn y parc. Bydd yr isadeiledd traffig yn cael sylw trwy gynllun penodol i reoli traffig a thrafnidiaeth. Rhagwelir na fydd llawer o draffig yn mynd trwy bentref Gaerwen. Bydd gwaith uwchraddio ar y system garthffosiaeth yn cael ei drafod yn fanwl gyda Dŵr Cymru.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Cynghorydd H.E. Jones annerch y cyfarfod fel aelod lleol. Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd ei gyd-gynghorydd, sef y Cynghorydd T.V. Hughes yn gallu dod i'r cyfarfod heddiw ond ei fod wedi gofyn i'r Cynghorydd Jones ddarllen ei sylwadau i'r Pwyllgor. Byddai'r Parc Gwyddoniaeth yn creu cyfleon cyflogaeth i bobl ifanc i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae trigolion yn bryderus ynghylch y lleoliad a ddewiswyd ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pam y dewiswyd Gaerwen o gofio'r ystyriaethau hanesyddol. Yn Ebrill penderfynodd y Pennaeth Cynllunio na ddylai ymyrryd ac na allai gefnogi meddygfa ddeintyddol/doctoriaid ar y safle oherwydd y byddai'n creu datblygiad rhubanaidd ac yn ymwthiad amlwg i gyrion y pentref. Mae'r cynnig y tu allan i'r ffin ddatblygu ar gyfer Gaerwen ac yn tynnu'n groes i Bolisi 51 a Pholisi 17 y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod y safle hwn yn ddelfrydol oherwydd ei fod o fewn cyrraedd rhwydd i Fangor. Ni fyddai ond yn cymryd ychydig o funudau i deithio i'r gyffordd gyda Llangefni. Byddai Llangefni yn croesawu datblygiad o'r fath a allai gynorthwyo busnesau bychain yn stryd fawr y dref. Roedd y Cynghorydd Hughes yn ystyried nad oedd digon o sylw wedi ei roi i 'r safleoedd eraill. Nid yw'r cais yn golygu gwneud unrhyw welliannau i'r A55 a byddai angen cylchfannau ar y ddwy slipffordd. Roedd y Cynghorydd Hughes wedi gofyn am i Brifysgol Bangor ailystyried lleoliad y

safle ac wedi gofyn i'r Pwyllgor ohirio rhoi sylw i'r cais heddiw oherwydd bod safle yn Llangefni sydd â chysylltiadau ffyrdd digonol a Llwybr Beicio ger y safle.

Dywedodd y Cynghorydd H.E. Jones ei fod yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed gan ei gyd-aelod lleol, ond roedd yn glir bod y Pwyllgor angen eglurhad ynghylch pam yr oedd yr Arolygwyr Cynllunio yn gwrthwynebu'r safle hwn 10 mlynedd yn ôl fel safle diwydiannol. Mae'n ymddangos yn awr fod swyddogion yn cefnogi'r cais. Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r Cyngor Cymuned am drefnu'r cyfarfodydd cyhoeddus i drafod y cynnig. Diolchodd hefyd i'r ymgeisydd am newid y cais gwreiddiol yn dilyn pryderon a fynegwyd gan y gymuned leol.

Dywedodd y Rheolydd Datblygu Cynllunio fod cais o'r maint hwn yn mynd i arwain at godi nifer o faterion. Mae'r prif ystyriaethau cynllunio wedi eu hamlygu yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Amlinellodd y Swyddog y prif ystyriaethau cynllunio fel y nodwyd nhw yn yr adroddiad a oedd ar gael i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd at y paragraff yn yr adroddiad sy'n delio gyda chyfyngiadau technegol neu amgylcheddol penodol h.y. draenio, ecoleg, priffyrdd, asesiadau gweledol a thirwedd, yr iaith Gymraeg, tir amaethyddol, archeoleg, mwynderau preswyl a'r effaith ar fwynderau lleol eiddo cyfagos.

Dywedodd y Rheolydd Datblygu Cynllunio bod fframwaith yn ei le i gymeradwyo'r cais amlinellol ar gyfer Parc Gwyddoniaeth yn y Gaerwen. Ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda nifer o amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ac y byddai o gymorth i greu amrywiaeth o gyfleon cyflogaeth ar gyfer pobl leol ac yn helpu economi'r Ynys. Argymhellir felly y dylid cymeradwyo'r cais gyda Chytundeb Adran 106 ar gyfer cyfraniad ariannol i hwyluso gwelliannau i'r safle bws a thuag at adeiladu ffordd gyswllt i gerddwyr a beicwyr ar ochr ddeheuol yr A5. Byddai angen trafodaeth bellach ynghylch nifer o amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd, yn arbennig Amod 10 yn yr adroddiad. Gofynnodd i'r Pwyllgor roi pwerau dirprwyol i'r Swyddogion Cynllunio drafod y rhain gyda'r datblygwr.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes fod pawb yn dymuno creu cyfleon cyflogaeth lleol i bobl ifanc a chynorthwyo busnesau i ddatblygu ar y parc. Byddai'r cyswllt gyda'r Brifysgol o fudd ar gyfer manteisio ar eu harbenigedd. Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes y dylid cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies bod manteision ac anfanteision i ddatblygiad o'r fath. Bydd y Parc Gwyddoniaeth yn creu llawer o gyfleon cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc. Mae'r ynys wedi colli gormod o raddedigion ac efallai y byddai hyn yn gyfle iddynt ddychwelyd. Eiliodd y Cynghorydd Davies y cynnig a wnaed i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog (fel y cafodd ei ddiwygio yn y cyfarfod) a chyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**7.2 33C295B – Cais llawn i godi annedd a gwaith altro i'r fynedfa gyfredol ar dir ger 4 Nant-y-Gors, Pentre Berw**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais Cadeirydd y Pwyllgor.

Dywedodd y Swyddog Datblygu Cynllunio fod y cais wedi ei ohirio yn y cyfarfod diwethaf oherwydd bod angen i'r ymgeisydd a'r Awdurdod Priffyrdd gynnal rhagor o drafodaethau. Roedd y mesuriadau ar gyfer lled y ffordd a'r droedffordd i'w gweld yn adroddiad y Swyddog. Dywedodd yr Uwch Beiriannydd (Priffyrdd) nad oedd ond modd lledu'r lôn i'r annedd arfaethedig drwy gael gwared ar y palmant sydd yno ar hyn o

bryd. Nododd y byddai hynny'n annerbyniol oherwydd ystyriaethau diogelwch i gerddwyr.

Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Nicola Roberts.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**7.3 34C553A – Cais amllinellol ar gyfer datblygiad preswyl, priffordd ac isadeiledd cysylltiedig yn Ty'n Coed, Llangefni**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd ei fod wedi ei hysbysebu fel un sy'n tynnu'n groes i'r cynllun datblygu ond yr argymhellir ei gymeradwyo. Ymwelwyd â'r safle ar 21 Awst, 2013.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mrs. Moore annerch y Pwyllgor fel un a oedd yn gwrthwynebu'r cais. Dygodd Mrs. Moore sylw at y pryderon a ganlyn:-

- Yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus, roedd yn amlwg nad oedd yr effaith y byddai'r cais yn ei gael ar isadeiledd y dref wedi cael fawr o sylw a bod effeithiau andwyol posibl ar eiddo cyfagos wedi eu hanwybyddu'n llwyr;
- Ardal gleiog yw hon, sy'n tueddu i gael llifogydd a llithriadau tir mewn mannau sy'n gwneud yr ardal yn un anodd a drud i'w datblygu fel y mae'r datblygwr wedi cyfaddef;
- Bydd amharu ar ddraeniad naturiol y tir yn creu risg o lifogydd i eiddo islaw'r safle ac yn is i lawr y cwrs dŵr y mae'n draenio iddo;
- Mae pryderon mawr ynghylch gallu rhwydwaith carthffosiaeth y dref i ymdopi yn wyneb profiadau trigolion Bro Ednyfed;
- Pryderon ynghylch mwy o draffig y tu allan i ysgol a ddyluniwyd i hwyluso mynediad i gerddwyr;
- Mae ysgol gynradd eisoes yn llawn ac nid yw'r cyfraniad gan y datblygwr i'w hehangu yn ddigon i gwrdd â'r costau tymor hir;
- Mae'r cynnydd yn y traffig eisoes yn bryder hyd yn oed gyda ffordd liniaru Coleg Menai a bydd yn golygu mwy o draffig drwy Ganol y Dref;
- Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai'r meddygfeydd lleol yn gallu ymdopi pe bai'r datblygiad hwn yn cael ei gymeradwyo;
- Dywedwyd bod y Cyngor eisoes wedi cwrdd â'i gwota o dir ar gyfer tai yn Llangefni. Gofynnwyd cwestiynau a oedd angen y tai hyn yn Llangefni;
- A fyddai'r mynwentydd yn Llangefni yn medru ymdopi â chynnydd yn sgil datblygiad o'r fath ac yn arbennig oherwydd mai Cam 1 y cais yw hwn a bod ail ddatblygiad yn cael ei gynllunio;
- Mae angen datblygiadau llai, sef cartrefi 1 a 2 ystafell wely ar draws yr Ynys i helpu'r holl gymunedau i dyfu a chynnal amrywiaeth yr ardal.

Roedd Aelod Lleol, sef y Cynghorydd Nicola Roberts, yn bryderus nad oedd trigolion yn ymwybodol tan ddechrau'r wythnos y byddai'r cais yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn. Yn y dyfodol, gofynnodd bod gwrthwynebwyr/cefnogwyr ceisiadau cynllunio yn cael rhybudd digonol pan fo ceisiadau'n cael eu trafod yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Berwyn Owen annerch y cyfarfod fel un a oedd yn cefnogi'r cais. Dygodd Mr Owen sylw at y materion a ganlyn:-

- Cynhaliwyd arolwg o fusnesau yn nhref Llangefni ac roedd 96% ohonynt yn croesawu'r datblygiad hwn yn Ty'n Coed. Mae'r busnesau bychain hyn yn cyflogi bron i 250 o bobl leol ac yn rhan bwysig o economi'r dref;
- Mae Llangefni angen mwy o dai i bobl leol er mwyn eu denu i ddefnyddio'r Canolfannau Hamdden, hybu masnach i siopau lleol, y farchnad a busnesau eraill yn Llangefni;
- Mae'r datblygiad yn bwysig i Langefni oherwydd ei fod o faint na welwyd ei debyg yn Llangefni ers deng mlynedd o gymharu ag ardaloedd eraill o Fôn;
- Mae thema o fewn adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir yn darllen fel a ganlyn: *'Gall tai fod yn gyfrwng ar gyfer adfywio. Gall adeiladu o'r newydd ddarparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cyflwyno cyfleon newydd ar gyfer datblygu tai lleol. Gall y farchnad dai greu cyflogaeth a chynorthwyo i sicrhau bod cartrefi a lleoedd deniadol ar gael i gadw pobl ifanc a llafur sgiliedig yn yr ardal":*
- Bydd canran o'r datblygiad ar gyfer tai fforddiadwy a fydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc leol brynu eu cartrefi eu hunain;
- Mae'r datblygiad yn cydymffurfio gyda'r polisïau tai y mae'r Cyngor wedi eu mabwysiadu;
- Mae'r safle wedi ei glustnodi yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Mae'r datblygiad arfaethedig yn gyfle anferth i Langefni adfywio ac yn gyfle i gynyddu'r dref ac mae hynny'n cydweddu â strategaeth y Cyngor Sir ar gyfer prosiectau tai a chyflogaeth.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor sawl cwestiwn i Mr Owen er eglurhad ynghylch materion fforddiadwyedd a thai fforddiadwy ac ynghylch yr arolwg a wnaed gyda'r busnesau lleol. Holwyd a oedd Asesiad ar yr Iaith Gymraeg wedi ei gynnal. Yn ei ymateb dywedodd Mr Owen mai cais amlinellol yw hwn ar hyn o bryd ac nad oedd manylion penodol wedi eu cadarnhau ynghylch faint o gartrefi fforddiadwy fydd ar gael a'r cyfraniad gan y datblygwr tuag at fwynderau lleol. Dywedodd hefyd fod polisïau Cenedlaethol yn dweud yn benodol bod raid i ddatblygiadau tebyg gynnwys darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy. Efallai y bydd gan Sefydliadau Tai diddordeb mewn darparu tenantiaethau ar y cyd ar gyfer y tai fforddiadwy fel bod modd i bobl ifanc leol fforddio cartref.

Ymatebodd y Rheolydd Datblygu Cynllunio i'r cwestiwn ynghylch a oedd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ac a oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn fodlon gyda chanfyddiadau'r asesiad. Roedd yr asesiad hefyd wedi ei gynnal yn unol â methodoleg y Cyngor.

Fel aelod lleol gofynnodd Cynghorydd Nicola Roberts i Mr Owen a yw'r datblygwr wedi comisiynu arolwg ar gyfer draenio'r safle. Ymatebodd Mr Owen fod Dŵr Cymru a thrigolion lleol wedi codi gwrthwynebiadau i'r cynnig oherwydd materion draenio. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi sylw manwl i'r pryderon hyn ond roedd bellach wedi ymateb gan ddweud nad oedd yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod angen amlwg am dai yn Llangefni a bod tystiolaeth a pholisi'n profi hynny. Roedd angen tai mewn lleoliadau cynaliadwy. Nid yw'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw'n statudol yn gwrthwynebu'r cais amlinellol. Cynigir ymrwymiad cynllunio i ddarparu 50% tai fforddiadwy i gychwyn dan y polisi; cyfraniad at y ddarpariaeth addysg – fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad a chyfraniad i wella ac uwchraddio'r cyfleusterau trin carthffosiaeth fel y cytunwyd gyda Dŵr Cymru. Byddai union delerau'r ymrwymiad cynllunio'n fater ar gyfer trafodaeth bellach a bydd adroddiad ar gasgliadau'r trafodaeth hynny'n cael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor hwn.

Fel Aelod Lleol, roedd y Cynghorydd Dylan Rees yn cytuno bod tref Llangefni angen cael ei hadfywio gyda mwy o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr ardal. Dywedodd ei fod o blaid datblygu cymunedau cynaliadwy gyda thwf bychan mewn tai. Mae'r cynnig yn un ar gyfer 138 o dai sy'n ddatblygiad anferth ac roedd yn ystyried na fyddai isadeiledd y dref yn gallu ymdopi gyda datblygiad o'r fath.

Cynigiodd y Cynghorydd Jeff Evans y dylid cymeradwyo'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Councillor R.O. Jones.

Cynigiodd y Cynghorydd Ann Griffith y dylid gwrthod y cais ac fe eiliwyd ei chynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

Dyma oedd y bleidlais :-

Cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog :-

Y Cynghorwyr Jeff Evans, K.P. Hughes, W.T. Hughes, R.O. Jones. **Cyfanswm: 4**

Gwrthod y cais :-

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Vaughan Hughes, Raymond Jones, Nicola Roberts. **Cyfanswm: 6**

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog oherwydd gorddatblygu, ymwthio i ardal wledig ac ni fedr iasdeiledd y dref gefnogi datblygiad o'r fath.**

**Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu i'r Swyddogion ymateb i'r rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 10 CEISIADAU SY'N GROES I BOLISI

### 10.1 45C9G – Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir ger Awel Menai, Penlon, Niwbwrch

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan ei fod yn groes i'r Cynllun Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer Ynys Môn ond yn un y gellir ei gefnogi'n unol â'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod llythyr o wrthwynebiad wedi dod i law gan Gyngor Cymuned Rhosyr wedi i raglen y cyfarfod gael ei chwblhau a bod y llythyr yn sôn am effaith y datblygiad ar yr AHNE a phryderon ynglŷn â'r fynedfa gul i'r safle. Dywedodd bod safle'r cais yn un 'mewnlenwi' yn ymyl y rhan honno o'r pentref bychan gwledig sydd wedi ei ddatblygu'n unol â'r ddarpariaeth ym Mholisi HP5.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd R. O. Jones.

**PENDERFYNWYD caniatáu pwerau dirprwyedig i gymeradwyo'r cais gyda'r amodau a nodir ac wedi i'r cyfnod ar gyfer hysbysu'r cymdogion ddod i ben ac wedi ystyried unrhyw sylwadau eraill a fydd wedi dod i law erbyn hynny.**

**10.2 45C207H/VAR – Cais dan Adran 73 i amrywio amodau (02) a (03) ar ganiatâd cynllunio cyfeirnod 45C207G (cais amlinellol i godi annedd) er mwyn ymestyn cyfnod amser y caniatâd cynllunio ar dir ger Abernant, Penlon**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan ei fod yn groes i'r Cynllun Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer Ynys Môn ond yn un y gellir ei gefnogi'n unol â'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod safle'r cais yn un 'mewnlenwi' sydd yn ymyl y rhan honno o'r pentref bychan gwledig sydd wedi ei ddatblygu a hynny'n unol â'r ddarpariaeth ym Mholisi HP5. Nid oedd y Cyngor Cymuned Lleol wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Nododd fod caniatâd cynllunio eisoes yn bodoli ar y safle hwn a bod y cais hwn yn gofyn am gael ymestyn cyfnod y caniatâd cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd John Griffith y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

**PENDERFYNWYD caniatáu pwerau dirprwyedig i gymeradwyo'r cais gyda'r amodau a nodir ac wedi i'r cyfnod ar gyfer hysbysu'r cymdogion ddod i ben ac wedi ystyried unrhyw sylwadau eraill a fydd wedi dod i law erbyn hynny.**

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

**11.1 16C197A – Cais llawn i ddymchwel y sied bresennol ynghyd â chodi annedd newydd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dridwen, Bryngwran**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i Gynghorydd fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Anerchodd y Cynghorydd Dylan Rees y cyfarfod fel Aelod Lleol a gofynnodd am ymweliad safle oherwydd bod deiliaid eiddo cyfagos o'r farn y câi'r cais effaith andwyol ar eu heiddo.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid ymweld â safle'r cais yn unol â chais yr aelod lleol. Eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd John Griffith.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle'n unol â chais yr aelod lleol.**

**11.2 19C1140/CA/ENF – Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresennol ynghyd â chodi annedd newydd yn ei lle yn 4 a 5 Pentre Pella, Mynydd Twr, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i Gynghorydd fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mae eiddo yng nghanol teras yw'r eiddo yn Ardal Gadwraeth ddynodedig Pentre Pella, Caergybi. Mae'r safle hefyd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gwneir y cais ôl-ddyddiedig ar gyfer dymchwel yn rhannol yr annedd bresennol ynghyd â chodi annedd newydd yn ei lle.

Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd R. O. Jones.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**11.3 23C323 – Cais llawn ar gyfer gwaith altro ac ehangu yn 1 Penbonc, Talwrn**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn gyfaill agos i berson sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd K.P. Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**11.4 33C258C/RUR – Cais llawn i godi annedd amaethyddol, adeiladu mynedfa i gerbydau ynghyd â gosod tanc septig ar dir yn Cefn Poeth, Llangefni**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn 'swyddog perthnasol' fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Miss Alaw Griffith i annerch y cyfarfod fel un sy'n cefnogi'r cais.

Dywedodd Miss Griffith y caniatawyd cais amlinellol ym mis Hydref 2014 a bod egwyddor y datblygiad o'r herwydd, eisoes wedi'i gymeradwyo. Cyflwynwyd y cais llawn i'r Pwyllgor heddiw oherwydd bod mwy o fanylion ar gael mewn perthynas â lleoliad y fynedfa i'r safle ac oherwydd bod maint y ffiniau wedi newid. Roedd y cais amlinellol a gymeradwywyd eisoes yn un am annedd sengl a oedd yn mesur 9.5m x 10.5m ar y cynllun a hyd at 7.5m i'r grib.

Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**11.5 36C338 – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir gyferbyn ag Ysgol Henblas, Llangristiolus**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn 'swyddog perthnasol' fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Cadeirydd fod aelod lleol wedi gofyn am ymweliad safle.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid ymweld â'r safle ar gais yr aelod lleol ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Nicola Roberts.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle'n unol â chais yr aelod lleol.**

**11.6 48C182A/DA – Cais i ganiatáu materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi annedd ar dir yn 2 Bryn Twrog, Gwalchmai**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod yr ymgeisydd yn 'swyddog perthnasol' fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol â gofynion paragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd K.P. Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1 12C266P/FR – Cais llawn i godi is-orsaf newydd ym Mhenrhyn Safnas, Biwmares**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd R. O. Jones y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Vaughan Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.2 12C266Q/FR – Cais llawn i altro'r fynedfa bresennol, ynghyd ag adeiladu maes parcio newydd yn ABC Power Marine, Biwmares**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd Vaughan Hughes y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd K. P. Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.3 14LPA1010/CC – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl ar dir yn Cefn Trefor, Trefor**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan yr Awdurdod Lleol a'r Cyngor sydd biau'r tir.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law gan yr ymgeisydd a chynigiodd y dylid gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**

**12.4 17C476A – Cais llawn i ail-leoli ffenestri yn 13 Glyn Garth Court, Porthaethwy**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais aelod lleol.

Dywedodd yr Is-gadeirydd ei bod yn gwrthwynebu'r cais oherwydd llythyr o wrthwynebiad a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais hwn a nododd y byddai'n pleidleisio yn ei erbyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Jeff Evans y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd K. P. Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.5 19C690C – Cais llawn i wneud gwaith altro ac ehangu yn 14 Cae Braenar, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais aelod lleol.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yr aelod lleol wedi gofyn am ymweliad safle oherwydd materion yn ymwneud ag edrych drosodd, colli preifatrwydd a lefelau amrywiol y tir ar y stad.

Cynigiodd y Cynghorydd R.O. Jones y dylid ymweld â safle'r cais yn unol â chais yr aelod lleol. Eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle'n unol â chais yr aelod lleol.**

**12.6 19C1156 – Cais llawn i ymestyn y cwrtil ynghyd â gwaith altro ac ehangu yn 74 Queen's Park, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd K. P. Hughes y dylid cefnogi'r cais ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jeff Evans.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.7 32C193 – Cais llawn i ymestyn cwrtil 7 Stad Tref Ifan, Caergeiliog**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Ms. Catrin Williams sy'n cefnogi'r cais, i annerch y cyfarfod. Roedd Ms. Williams yn dymuno rhoddi sicrwydd y byddai llecynnau parcio ar gyfer 2 gar ar gael wedi ymestyn y cwrtil yn 7 Tre Ifan, Caergeiliog.

Cynigiodd y Cynghorydd R.O. Jones y dylid cefnogi'r cais ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Nicola Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.8 34LPA1009/CC – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl ar dir ger Saith Aelwyd, Rhosmeirch**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor yw perchennog y tir.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am orddatblygiad pentref Rhosmeirch ac am faint y tai sydd wedi cael eu hadeiladu yn yr ardal. Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen ffin ddatblygu ar gyfer Rhosmeirch. Ym marn y Cynghorydd Nicola Roberts, roedd y cais hwn yn ymwthio mewn modd annerbyniol i ardal wledig Rhosmeirch a chynigiodd y dylid gohirio'r cais fel y gellir cynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd mewn perthynas â'r datblygiad hwn. Eiliwyd ei chynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais fel y gellir cynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd.**

**13 MATERION ERAILL**

**13.1 20C265E/SCR – Barn sgrinio ar gyfer codi Canolfan Amgen ar gyfer Rheoli Argyfyngau (AECC) a Labordy Arolwg Lleol (DSL), lleoli is-orsaf drydan a gwaith cysylltiedig ar dir yng Ngorsaf Bŵer Wylfa, Tregele**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion er mwyn rhoddi i'r Aelodau'r diweddaraf am yr holl faterion sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**Y CYNGHORYDD W.T. HUGHES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ann Griffith, John Griffith, Kenneth Hughes, W. T. Hughes, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Raymond Jones. |
| **WRTH LAW**: | Darpar Brif Weithredwr<br>Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Victor Hughes, Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Jim Evans (fel Cadeirydd y Cyngor Sir) |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**2. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd W. T. Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**3. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ann Griffith yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Cynghorydd Jim Evans**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**

This page is intentionally left blank

# YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Kenneth Hughes, Victor Hughes. |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio (OWH) (ar gyfer cais 3) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, J. Arwel Roberts (Aelod Lleol ar gyfer cais 3) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Aelod Lleol ar gyfer cais 2) |

---

**1 36C338 – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir gyferbyn ag Ysgol Henblas, Llangristiolus**

Soniodd y Swyddog am safle'r cais, natur y safle a'i berthynas gydag eiddo cyfagos a'r fynedfa.

**2 16C197A – Cais llawn i ddymchwel y sied bresennol ynghyd â chodi annedd newydd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dridwen, Bryngwran**

*Gwnaeth y Cynghorydd Victor Hughes ddatganiad o ddiddordeb yn y cais hwn ac arhosodd ar y bws yn ystod yr ymweliad â'r safle.*

Soniodd y Swyddog am safle'r cais, natur y safle a'i berthynas gydag eiddo cyfagos. Dangoswyd y ffordd fynediad breifat i'r Aelodau ynghyd â marciau a roddwyd ar y ffordd gan drigolion lleol fel arwydd o raddfa'r datblygiad ar y safle.

**3 19C690C – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 14 Cae Braenar, Caergybi**

Soniodd y Swyddog am safle'r cais, natur y safle a'i berthynas gydag eiddo cyfagos. Edrychodd yr Aelodau hefyd ar safle'r cais o ardd a phatio 1 Digney Close.

This page is intentionally left blank